TROSOLWG O ANGHYDRADDOLDEB

Cyflwyniad

Pa mor deg yw'r byd? Pa mor deg yw'r gymdeithas yr ydych yn byw ynddi?

Un ffordd o feddwl am ba mor deg yw ein cymdeithasau yw trwy edrych ar "gydraddoldeb". Mae cydraddoldeb yn ffordd o fesur pa mor gyfartal y mae cymdeithas yn rhannu pethau fel arian. Felly, er enghraifft, mewn cymdeithas gwbl gyfartal byddai gan bawb yr un faint o arian. Mewn cymdeithas anghyfartal, byddai gan rai pobl lawer mwy o arian nag eraill.

Wrth gwrs, nid oes yr un gymdeithas sy'n gwbl gyfartal. Ond a yw anghydraddoldeb yn tyfu? Ac os yw'n tyfu, a yw hynny o bwys?

Mae cymdeithasau'r unfed ganrif ar hugain yn anghyfartal iawn, ac mae anghydraddoldeb yn cynyddu. Er enghraifft, yn 2017, roedd chwech o'r bobl gyfoethocaf ar y blaned yn berchen ar gymaint o gyfoeth â hanner tlotaf y ddynoliaeth.[1] Efallai eich bod yn gofyn pam y mae hyn yn bwysig. Ni fyddai ond yn cymryd 1.5% o gyfoeth cyfunol holl filiwnyddion y byd i ariannu'r diffyg yng ngwasanaethau iechyd ac addysg gwledydd tlotaf y byd. Mae cysylltiad agos rhwng anghydraddoldeb eithafol a'r her o ddileu tlodi, o'r diwedd. Eto, mae anghydraddoldeb yn parhau i fod yn fater dadleuol sydd wedi rhannu economegwyr.

Barn Oxfam

Mae Oxfam yn credu bod anghydraddoldeb eithafol yn tanseilio ymdrechion i ddileu tlodi. Am y rheswm hwn, rydym yn helpu pobl i ddeall ei effeithiau ac yn ymgyrchu i roi terfyn arno. Mae'r fideo hwn, *Even It Up: The Rich and the Rest* (2 funud, 58 eiliad), yn cyfleu ein safbwynt ac yn rhoi rhai ffeithiau a ffigurau perthnasol.

Anghydraddoldeb a'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r gweithgareddau hyn yn fan cychwyn da i bobl ifanc feddwl yn feirniadol am anghydraddoldeb a dechrau llunio eu casgliadau eu hunain.

Syniadau addysgu pellach

- Gofynnwch i'ch pobl ifanc ymchwilio i effaith anghydraddoldeb yng Nghymru. Gallent edrych ar Glasbrint ar gyfer Newid Oxfam Cymru (ar gael yn Gymraeg a Saesneg) er mwyn dysgu rhagor am farn Oxfam am anghydraddoldeb yng Nghymru.

[1]Ymgyrch Unioni'r Glorian Oxfam: https://www.Oxfam.org/en/campaigns/even-it-Up

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

- Gallai eich pobl ifanc ymchwilio i'r rhesymau gwahanol pam y mae rhai plant yn colli'r cyfle i gael addysg. Gall hyn fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â rhyw, gwrthdaro, anableddau, trychinebau naturiol neu ddiffyg cyllid gan lywodraethau i redeg ysgolion. Gall y bobl ifanc ddysgu am yr Ymgyrch Fyd-eang ar gyfer Addysg, neu gymryd rhan yn yr ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol flynyddol. Defnyddiwch Adnoddau Addysg Bagloriaeth Cymru i edrych ar anghydraddoldebau o ran mynediad i addysg.
- Gofynnwch i'ch pobl ifanc ddysgu rhagor am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a pham y mae anghydraddoldebau cyflog rhwng dynion a menywod.
- Mae adnoddau Mwy neu Lai'n gyfartal? Oxfam yn archwilio anghydraddoldeb a bywydau pobl ifanc ledled y byd. Maent yn cynnwys adnoddau Mathemateg, Daearyddiaeth a Saesneg. Mae'r adnoddau Daearyddiaeth ar gael yn Gymraeg.
- Gallai eich pobl ifanc hefyd ddysgu am effaith anghydraddoldebau ar y gallu i gael gofal iechyd ledled y byd. Mae adnodd Iechyd ac Anghydraddoldeb: Bagloriaeth Cymru yn edrych ar anghydraddoldebau o ran gofal iechyd mamau. Gallai'r bobl ifanc ddysgu rhagor am yr hyn y mae cymunedau yng Nghymru yn ei wneud i wella gofal iechyd yng ngwledydd Affrica trwy Gysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841